

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Machynlleth i Ffin Sirol
Powys/Ceredigion, Powys)
(Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a
Cherddwyr Dros Dro) 2020

The A487 Trunk Road
(Machynlleth to the
Powys/Ceredigion County Border,
Powys) (Temporary Prohibition of
Vehicles, Cyclists & Pedestrians)
Order 2020

Gwnaed 25 Chwefror 2020

Made 25 February 2020

Yn dod i rym 2 Mawrth 2020

Coming into force 2 March 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Machynlleth i Ffin Sirol Powys/Ceredigion, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 2 Mawrth 2020.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Machynlleth to the Powys/Ceredigion County Border, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2020 and it comes into force on 2 March 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, cerbydau cynnal a chadw yn ystod y gaeaf, bysiau trafndiaeth gyhoeddus, a hynny er mwyn cael mynediad at eiddo yr effeithir arno, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services, winter maintenance vehicles, public transport buses, for access to affected properties or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 2 Mawrth 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

25 Chwefror 2020

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o ganolbwynt cyffordd tŵr cloc yr A487/A489 ym Machynlleth hyd at bwynt 130 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r U2491 ar ffin sirol Powys/Ceredigion.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o ganolbwynt cyffordd tŵr cloc yr A487/A489 ym Machynlleth hyd at bwynt 50 o fetrau i’r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sy’n arwain at yr orsaf drenau.

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 19:00 hours on 2 March 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

25 February 2020

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the trunk road that extends from the centre-point of the A487/A489 clock tower junction at Machynlleth to a point 130 metres south-west of the centre-point of its junction with the U2491 at the Powys/Ceredigion county border.

The length of the trunk road that extends from the centre-point of the A487/A489 clock tower junction at Machynlleth to a point 50 metres north of the centre-point of its junction with the road leading to the railway station.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(MACHYNLLETH I FFIN SIROL
POWYS/CEREDIGION, POWYS) (GWAHARDD
CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS
DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, rhwng Machynlleth a ffin sirol Powys/Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A487 a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd. Bydd cerbydau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys, ar gyfer cynnal a chadw yn ystod y gaeaf, bysiau trafniadaeth gyhoeddus, ar gyfer y gwaith a'r rheini y mae arnynt angen mynediad i eiddo y mae'r A487 yn ei wasanaethu'n uniongyrchol, yn esempt o'r gwaharddiad.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn dod i rym ar 2 Mawrth 2020 ac y byddant yn weithredol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) tan 31 Mawrth 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (MACHYNLLETH
TO THE POWYS/CEREDIGION COUNTY
BORDER, POWYS) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS &
PEDESTRIANS) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road between Machynlleth and the Powys/Ceredigion county border.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A487 trunk road specified in the Schedule to this Order. The alternative routes are also described therein. Vehicles being used by the emergency services, for winter maintenance, public transport buses, for the works and those needing to access properties directly served by the A487 will be exempt from the prohibition.

It is expected that the temporary prohibitions will come into force on 2 March 2020 and operate overnight (19:00 – 06:00 hours) until 31 March 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

YR ATODLEN

1. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt cyffordd tŵr cloc yr A487/A489 ym Machynlleth hyd at bwynt 130 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2491 ar ffin sirol Powys/Ceredigion.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de fydd mynd tua'r gogledd-ddwyrain ar yr A489 i Lantwymyn, tua'r de ar yr A470 i Langurig, tua'r gorllewin ar yr A44 i Gylchfan Gelli Angharad a thua'r gogledd ar yr A5149 i Bow Street i ailymuno â'r A487 tua'r gogledd/de: i'r gwrthwyneb i draffig sy'n teithio tua'r gogledd.

2. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt cyffordd tŵr cloc yr A487/A489 ym Machynlleth hyd at bwynt 50 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at yr orsaf drenau.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd tua'r gogledd-ddwyrain ar yr A489 i Lantwymyn a thua'r gogledd ar yr A470 i Cross Foxes i ailymuno â'r A487: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

SCHEDULE

1. The length of the trunk road that extends from the centre-point of the A487/A489 clock tower junction at Machynlleth to a point 130 metres south-west of the centre-point of its junction with the U2491 at the Powys/Ceredigion county border.

The alternative route for southbound traffic will be via the north-eastbound A489 to Cemmaes Road, southbound A470 to Llangurig, westbound A44 to Lovesgrove Roundabout and northbound A5149 to Bow Street to rejoin the north/southbound A487: vice versa for northbound traffic.

2. The length of the trunk road that extends from the centre-point of the A487/A489 clock tower junction at Machynlleth to a point 50 metres north of the centre-point of its junction with the road leading to the railway station.

The alternative route for northbound traffic will be via the north-eastbound A489 to Cemmaes Road and northbound A470 to Cross Foxes to rejoin the A487: vice versa for southbound traffic.